# ADRODDIAD BLYNYDDOL

## 2025/2026

*Troi bwyd dros ben yn ateb i'r gymuned*









*Achub bwyd da*

*Cefnogi ein cymunedau*

*Lleihau gwastraff*

# Cynnwys


| | |
|---|---|
| Datganiad yr Ymddiriedolwyr | 003 |
| Cwrdd â'r tîm | 004 |
| Ein Heffaith | 006 |
| Ein Cyflawniadau | 007 |
| Gwirfoddoli | 009 |
| Gwirfoddoli Corfforaethol | 010 |
| Caffael Bwyd | 011 |
| Cronfa Bwyd Dros Ben ag Amcan Cymru. | 012 |
| Cyflogadwyedd | 013 |
| Aelodau Bwyd Cymunedol | 014 |
| Codi Arian a Phartneriaethau. | 016 |
| Gweithrediadau | 016 |
| Digwyddiadau a Chynrychiolaeth | 018 |
| Dogfen Lywodraethu a Chyfansoddiad | 019 |
| Cynlluniau ar gyfer y Dyfodol | 022 |
| Adolygiad Ariannol | 023 |

# Datganiad
# yr Ymddiriedolwyr

Drwy gydol 2025/26, fe wnaethom barhau i droi bwyd dros ben yn gyfleoedd i gryfhau cymunedau, gwella lles a diogelu'r amgylchedd ledled Cymru. Mae'n fraint o hyd i ni fel ymddiriedolwyr gael bod yn rhan o'r gwaith a chynnig lefel bwysig o graffu, llywodraethu cryf a chefnogaeth i staff.

Yn amlwg, mae dosbarthu bwyd i'r cymunedau hynny sydd ei angen fwyaf yn ganolog i'r hyn a wnawn fel menter gymdeithasol. Rhwng Ebrill 2025 a Mawrth 2026, helpodd Cronfa Bwyd Dros Ben ag Amcan Cymru i achub dros 58 tunnell o gynnyrch yng Nghymru, gan gefnogi 186 o Aelodau Bwyd Cymunedol ledled de Cymru a darparu'r hyn sy'n cyfateb i 138,795 o brydau bwyd i oddeutu 21,390 o bobl. Rydym yn gwerthfawrogi cefnogaeth barhaus Llywodraeth Cymru i'n helpu i gyflawni'r deilliannau hyn.

Mae cefnogi tyfwyr yng Nghymru yn golygu cefnogi cymunedau Cymru — helpu i sicrhau fod bwyd da yn cyrraedd platiau, nid safleoedd tirlenwi. Yn ogystal â'r Gronfa Bwyd Dros Ben ag Amcan, mae adroddiad eleni yn dangos ein bod wedi cyflawni'r deilliannau canlynol:

·crëwyd 2,963,034 o brydau bwyd
·ailddosbarthwyd 1178 tunnell o fwyd
·arbedwyd 3850 tunnell o CO2
·rhoddodd 131 o wirfoddolwyr 11,474 awr o'u hamser
·cefnogwyd 286 o elusennau a grwpiau cymunedol ledled Cymru.

Y tu ôl i'r ffigurau hyn mae cymunedau, gwirfoddolwyr, elusennau, cyflenwyr a phartneriaid yn gweithio gyda'i gilydd i sicrhau fod bwyd da yn cyrraedd pobl yn hytrach na'i fod yn mynd yn wastraff. Gyda'n gilydd, rydym yn parhau i greu effaith gymdeithasol ac amgylcheddol gadarnhaol ledled Cymru.

Ym mis Medi, cyhoeddodd FareShare UK ei fod yn uno â The Felix Project, sef elusen yn Llundain sy'n rhannu ein cenhadaeth o gefnogi cymunedau a lleihau gwastraff bwyd. Fel ymddiriedolwyr, rydym wedi dilyn y datblygiadau hyn yn ofalus a rydym o'r farn y bydd yr uno hwn yn dod â chyfleoedd newydd i ni sy'n cynnwys datgloi mwy o fwyd dros ben, meithrin partneriaethau cryfach, ac ymhelaethu ar lais rhwydwaith FareShare ar lefel y DU. Yn bwysicaf oll, mae'n golygu y bydd hyd yn oed mwy o grwpiau cymunedol, ysgolion, a phrosiectau lleol yn gallu cael mynediad at y bwyd sydd ei angen arnynt i gysylltu pobl â'i gilydd, eu dwyn ynghyd, a gwneud gwahaniaeth. Fel ymddiriedolwyr, byddwn yn parhau i fonitro beth mae hyn yn ei olygu i ni yn y dyfodol o ran cyflenwad bwyd, cyllid, y rhwydwaith ledled y DU a brandio.

Rydym yn falch o adrodd ar ddeilliant gwerthusiad a wnaed gan Lywodraeth Cymru a edrychodd yn fanwl ar ein gweithrediad a sut rydym ni'n gwario'r arian a dderbyniwyd. Yn y gwerthusiad hwn, tynnwyd sylw at y gwerth cymdeithasol, amgylcheddol ac economaidd sylweddol a grëwyd trwy ailddosbarthu bwyd, gan gydnabod yr effaith gadarnhaol y mae bwyd dros ben yn ei chael ar gymunedau, cynhyrchwyr bwyd ac economi ehangach Cymru. Llongyfarchiadau i'r tîm rheoli a'r staff am gyflawni'r deilliant hwn.

Ac yn olaf, y diolchiadau, ac fel bob blwyddyn, mae'r ymddiriedolwyr yn gwerthfawrogi ac yn hynod falch o'r staff sy'n gweithio'n galed i gyflawni'r uchod ac wrth gwrs y gwirfoddolwyr sy'n parhau i ddod ag ymroddiad, arbenigedd a haelioni anhygoel i FareShare Cymru. Wrth gwrs, rydym yn diolch i'n harianwyr yn Llywodraeth Cymru, Sefydliad Moondance ac Ymddiriedolaeth Simon Gibson am eu cefnogaeth drwy gydol 2025/26.

# Cwrdd
# â'r tîm






















Dewch i gwrdd â thîm ymroddedig FareShare Cymru, sy'n angerddol am degwch bwyd, cefnogi cymunedau, a gwneud gwahaniaeth cadarnhaol ledled Cymru.

# Ein Cyflawniadau

# Ein Heffaith
# yn 2024/25

Drwy gydol 2025/26, fe wnaethom droi bwyd dros ben yn gyfleoedd i gryfhau cymunedau, gwella lles a diogelu'r amgylchedd ledled Cymru.

**Crëwyd**
**2,963,034**
**o brydau bwyd**

**Ailddosbarthwyd**
**1178**
**tunnell o fwyd**

**Arbedwyd**
**3850**
**tunnell o CO2**

**Rhoddodd**
**131**
**o wirfoddolwyr 11,474 awr o'u hamser**

**Cefnogwyd**
**286**
**o elusennau a grwpiau cymunedol ledled Cymru**

**58**
**tunnell o fwyd yn gynnyrch Cymreig a ailddosbarthwyd trwy Bwyd Dros Ben ac Amcan Cymru**

# Ein Cyflawniadau

Roedd 2025/26 yn flwyddyn o dwf, cydweithio a gwelededd i FareShare Cymru.
Trwy wneud gwelliannau o ran ein heffeithlonrwydd gweithredol a ffyrdd o weithio, fe wnaethom lwyddo i gynyddu ein cyrhaeddiad a chefnogi 24 o elusennau a grwpiau cymunedol ychwanegol ledled Cymru, gan sicrhau y gallai mwy o sefydliadau gael mynediad at fwyd dros ben a'r manteision ehangach y mae hyn yn eu cynnig i gymunedau lleol.

Yn ystod y flwyddyn, fe wnaethom ail-lansio rhaglen Bwyd Dros Ben ag Amcan Cymru, gan helpu i gryfhau cydberthnasau â thyfwyr, cynhyrchwyr a chyflenwyr yng Nghymru, wrth annog mwy o fusnesau i ailddosbarthu bwyd dros ben ledled Cymru.

Fe wnaethom hefyd gynyddu ein presenoldeb mewn digwyddiadau cenedlaethol ac o fewn sgyrsiau ynghylch cynaliadwyedd bwyd a chefnogaeth gymunedol. Roedd hyn yn cynnwys mynd â'n profiad realiti rhithwir O'r Maes i'r Fforc i Sioe Frenhinol Cymru, gan helpu i godi ymwybyddiaeth o ailddosbarthu bwyd dros ben a'i effaith ledled Cymru
.
Cyfrannodd FareShare Cymru hefyd at drafodaethau ehangach ynghylch systemau bwyd ac ansicrwydd bwyd trwy gymryd rhan mewn digwyddiadau, gan gynnwys Uwchgynhadledd Fwyd Blaenau Gwent, gweithdy Tegwch i Bawb Abertawe, yn ogystal ag Y Farchnad yn y Senedd.

Drwy gydol y flwyddyn, gwelwyd mwy o godi arian a mwy o ymgysylltiad gan y cefnogwyr. Yn ystod ymgyrch Cronfa Cyfatebol Werdd y Big Give, fe wnaeth ein cefnogwyr helpu i godi £11,866, sy'n cyfateb i fwy na 47,000 o brydau bwyd ar gyfer cymunedau ledled Cymru. Fe wnaethom hefyd lansio ymgyrch Prydau o Fwyd â Phwrpas ar gyfer y Nadolig yn llwyddiannus a chymryd rhan yn ymgyrch Casgliad Bwyd Gaeaf Tesco, gyda chefnogaeth gwirfoddolwyr a chymunedau ledled Cymru.

Drwy gydol y flwyddyn, fe wnaethom barhau i dynnu sylw at waith Aelodau Bwyd Cymunedol ledled Cymru trwy drefnu ymweliadau, adrodd straeon ac ymgyrchoedd. Dangosodd sefydliadau gan gynnwys Grow Rhondda, Canolfan Gymunedol Sirhowy, Pantri Hope yn The Hive, Canolfan Allgymorth Cymunedol Pen-y-bont ar Ogwr, Pantri FoodShare Gwasanaethau Gwirfoddol Sir Forgannwg ac Ysgol Gymunedol Prendergast, nifer o wahanol ffyrdd y gall bwyd dros ben helpu i gryfhau cymunedau lleol.

Fe wnaethom hefyd barhau i ehangu cyfleoedd gwirfoddoli a chyflogadwyedd, gan ddathlu Wythnos Gwirfoddolwyr, cynnal gwobrau ar gyfer gwirfoddolwyr, a chefnogi cyfranogwyr trwy raglenni'n cynnwys FareBoost Cymru.



# Gwirfoddoli,
# Caffael Bwyd,
# Cyflogadwyedd,
# Aelodau Bwyd Cymunedol ,
# Codi Arian .

# Gwirfoddoli

Yn 2025/26, fe wnaethom barhau i ychwanegu at ein cymuned gref o wirfoddolwyr sy'n parhau gyda'r gwaith o ymgysylltu. Gwirfoddolodd cyfanswm o 145 o bobl gyda ni, gan roi mwy na 11,400 awr o'u hamser. Ar gyfartaledd, roedd gwirfoddolwyr yn cwblhau tua phedair shifft y mis yn ein warysau, ac erbyn diwedd y flwyddyn roeddem yn cefnogi bron i 300 o shifftiau gwirfoddol bob mis.

Mae ein gwirfoddolwyr yn parhau i arddangos ymroddiad, arbenigedd a haelioni anhygoel i FareShare Cymru. Drwy gydol blwyddyn o newid sylweddol, fe wnaethon nhw arddangos hyblygrwydd, ymrwymiad a pharodrwydd i gefnogi ffyrdd newydd o weithio ledled y sefydliad.

Roeddem yn falch o fod yn ail unwaith eto yng Ngwobrau Gwirfoddolwyr Caerdydd 2025, ac yn arbennig o falch fod dau o'n gwirfoddolwyr wedi derbyn gwobrau gwirfoddolwyr cenedlaethol gan FareShare UK.
Fe wnaethom hefyd barhau â'n gwaith trwy'r cynllun Buddsoddi mewn Gwirfoddolwyr, gan helpu i lunio dyfodol gwirfoddoli yn FareShare Cymru. Atgyfnerthwyd hyn trwy gyfrwng cefnogaeth gan ein panel o wirfoddolwyr, a mae eu syniadau hwy ac adborth y panel hwn yn parhau i helpu i wella profiad y gwirfoddolwyr a'r gwaith a wnawn.





Bu dathlu cyfraniad ein gwirfoddolwyr yn rhan bwysig o'r flwyddyn. Nodwyd Wythnos y Gwirfoddolwyr trwy gynnal barbeciw yn y warws ac wythnos o gacennau wedi'u gwneud gan y staff. Dathlwyd gwobrau FareShare UK a gwobrau ar gyfer gwirfoddolwyr mewnol trwy gynnal te prynhawn yn y warws. Daeth staff a gwirfoddolwyr ynghyd hefyd ar gyfer dathliad Nadolig bywiog yng Nghlwb Rygbi Llanisien, a daeth y flwyddyn i ben gyda chyfarfod cymdeithasol arbennig ym Mragdy Tiny Rebel i ddathlu ymddeoliad Gerry Molan, ein Pennaeth Gweithrediadau annwyl sydd hefyd yn gwisfeistr eithriadol.

## Astudiaeth Achos



Ymunodd Allyson â FareShare Cymru ym mis Hydref 2024, gan chwilio am gyfle i wirfoddoli a fyddai'n ei galluogi i wneud gwahaniaeth ymarferol yn ei chymuned. Ar ôl mwynhau ei phrofiad, anogodd ei gŵr Joe i ymuno ychydig cyn y Nadolig.

Gyda'i gilydd, maent yn gwirfoddoli'n wythnosol yn y warws, gan helpu i gasglu archebion ar gyfer elusennau a grwpiau cymunedol ledled Cymru. Yn eu rôl, maent yn helpu i sicrhau fod bwyd da yn cyrraedd sefydliadau sy'n cefnogi pobl leol a chymunedau.

Wrth fyfyrio ar ei phrofiad, dywedodd Allyson:

***'Bob tro rwy'n mynd adref, rwy'n dweud, "Mae hyn yn rhoi cymaint o fodlonrwydd i mi." Yn fy swydd i, roedd y bodlonrwydd bob amser mor bell i ffwrdd. Yn y rôl hon, rwy'n cael bodlonrwydd ar unwaith; rydych chi'n gwybod fod y bwyd yn mynd i grŵp a fydd yn ei werthfawrogi'n fawr.'***

Mae stori Allyson a Joe yn tynnu sylw at sut y gall gwirfoddoli ddarparu pwrpas, cysylltiad a ffordd wirioneddol o gefnogi cymunedau wrth helpu i sicrhau fod bwyd da yn cyrraedd y rhai sydd ei angen fwyaf.

# Gwirfoddoli Corfforaethol

Fe wnaethon ni ehangu ein rhaglen wirfoddoli corfforaethol yn ystod y flwyddyn, gan groesawu timau mwy o ran eu maint a chynyddu nifer y diwrnodau gwirfoddoli sydd ar gael. Fe wnaethon ni gynnal 35 o ddiwrnodau gwirfoddoli corfforaethol, pryd y gwelwyd mwy na 140 o weithwyr yn gwirfoddoli ochr yn ochr â ni.

Mae pob gwirfoddolwr corfforaethol yn gadael gyda gwell dealltwriaeth o'n gwaith ac yn dod yn eiriolwr dros FareShare Cymru, yn eu gweithle a'u cymuned. Mae wedi bod yn flwyddyn o dwf, newid a chynnydd, ac mae ein gwirfoddolwyr wedi parhau i chwarae rhan ganolog wrth gefnogi gwelliannau ac ehangu ledled y sefydliad.



# Caffael Bwyd

Drwy gydol 2025/26, fe wnaethom barhau i gryfhau partneriaethau gyda’n cyflenwyr ac ehangu ailddosbarthu bwyd dros ben ledled Cymru. Ailddosbarthwyd dros 960 tunnell o fwyd yn ystod y flwyddyn, gan gynnwys 806 tunnell o fwyd dros ben, a mwy na 20% ohono wedi'i gaffael yn lleol.

Mae hyn yn cyfateb i oddeutu 2.29 miliwn o brydau bwyd, gan gefnogi unigolion, teuluoedd a chymunedau ledled Cymru. Ni fyddai'r cyflawniadau hyn wedi bod yn bosibl heb gefnogaeth barhaus cyflenwyr hirsefydlog a phartneriaid newydd, ac rydym yn estyn ein diolch diffuant iddynt.

Parhaodd adeiladu a chynnal cydberthnasau cryf â chyflenwyr yn flaenoriaeth allweddol drwy gydol y flwyddyn. Ochr yn ochr â datblygu partneriaethau newydd, fe wnaethom ailgysylltu'n llwyddiannus â nifer o gyflenwyr nad oeddent yn parhau i gyflenwi, gan arwain at roddion newydd a rhoddion at ddiben penodol ar draws ystod eang o gategorïau cynnyrch.

Fe wnaethom hefyd barhau i adeiladu cydberthnasau newydd trwy gynnal gweithgareddau estyn allan rhagweithiol, ymgyrchoedd digidol a mynychu digwyddiadau allweddol yn y diwydiant, gan gynnwys Sioe Frenhinol Cymru, Sioe Fasnach Castell Howell a Taste Blas.






Ochr yn ochr â gweithgaredd ailddosbarthu, fe wnaethom archwilio cyfleoedd ar gyfer cydweithio ehangach, gan gynnwys partneriaethau sy'n canolbwyntio ar ddefnyddio bwyd dros ben wrth gynhyrchu prydau bwyd. Hefyd, fe wnaethom gwblhau gwaith canfod dichonoldeb cynnar oedd yn gysylltiedig â chynllun peilot ar gyfer lloffa, a nodi cyfleoedd pellach i gynyddu ffynonellau bwyd dros ben a’n gallu i ailddosbarthu yn y dyfodol. Roedd hyn yn cynnwys asesu dichonoldeb lloffa, gan nodi cyfleoedd posibl ar gyfer cydweithio o amgylch De Cymru.

Fe wnaethom hefyd nodi ac ymgysylltu â thri ffermwr er mwyn trafod y posibilrwydd iddynt gymryd rhan mewn gweithgareddau lloffa arfaethedig. Gwnaethpwyd hyn drwy gael mynediad at eu rhwydwaith a thrwy fynd i'r afael â heriau gweithredu posibl. Rhoddodd y trafodaethau hyn fewnwelediad gwerthfawr i'r ystyriaethau ymarferol a lefel y diddordeb ymhlith cynhyrchwyr lleol, gan helpu i werthuso hyfywedd cyfleoedd ar gyfer lloffa yn y dyfodol.

# Cronfa Bwyd Dros Ben ag Amcan Cymru

Hoffai FareShare Cymru fynegi ein diolch dwysaf i Lywodraeth Cymru am ei chefnogaeth barhaus i gronfa Bwyd Dros Ben ag Amcan Cymru. Mae'r gronfa werthfawr hon yn galluogi busnesau bwyd Cymreig i gyfrannu bwyd sydd dros ben, heb arwain at gost ychwanegol, gan gynnwys pecynnu, llafur, labelu a chludiant.

Ers Ebrill 2025, mae'r gronfa wedi cefnogi ailddosbarthu mwy na 355 o dunelli o gynnyrch ffres a chynhyrchion llaeth, gan gynnwys tatws, cennin a chaws.

Mae'r ailddosbarthu bwyd dros ben hyn wedi atal rhyddhau tua 1,099 o dunelli o allyriadau CO2, a fyddai wedi cael eu rhyddhau pe byddai'r bwyd wedi mynd i safleoedd tirlenwi. Yn ogystal, mae'r ymdrechion hyn wedi cyfrannu at greu tua 845,000 o brydau bwyd a'u dosbarthu i bobl sy'n wynebu ansicrwydd ynghylch bwyd, ledled Cymru.


Un o'r partneriaid newydd a gafodd fynediad at y gronfa eleni oedd Monarchs Crackers yng Ngorllewin Cymru. Trwy'r bartneriaeth hon, ailddosbarthwyd craceri caws a chaws dros ben yn llwyddiannus i gymunedau ledled Cymru.

Amlygwyd hyn gan y Rheolwr Gyfarwyddwr, Alex Rus:




***"Roedden ni eisiau cael rhoi trwy FareShare Cymru oherwydd fod eu model yn sicrhau bod bwyd dros ben yn mynd yn uniongyrchol at y bobl sydd ei angen fwyaf yng Nghymru. Mae gwybod y bydd y caws yn cael ei ddosbarthu i sefydliadau cymunedol lleol a theuluoedd sy'n elwa o fwyd maethlon o ansawdd uchel, yn rhoi hyder i ni y bydd yn cael yr effaith fwyaf posibl."***

# Cyflogadwyedd




Drwy gydol 2025/26, parhaodd FareShare Cymru i gefnogi pobl ledled Cymru i feithrin hyder, ennill profiad ymarferol a datblygu sgiliau newydd wrth iddynt wirfoddoli a chael cyfleoedd ar gyfer hyfforddiant a chyflogadwyedd.

Mae ein gwaith cyflogadwyedd yn canolbwyntio ar greu amgylcheddau cefnogol a chynhwysol, lle gall pobl ennill profiad ystyrlon wrth gyfrannu at eu cymunedau lleol. Oherwydd y gweithrediadau warws, trin bwyd, gweinyddu, ymgysylltu â'r gymuned a gweithgareddau coginio, datblygodd ein cyfranogwyr sgiliau trosglwyddadwy yn y gweithle, gan fagu hyder a chynefino â threfniadau gweithredu arferol mewn amgylchedd gwaith go iawn.



Ochr yn ochr â phrofiad ymarferol, cefnogwyd ein cyfranogwyr i wella lles, meithrin cysylltiadau cymdeithasol ac archwilio llwybrau tuag at sicrhau hyfforddiant, gwirfoddoli a chyflogaeth bellach. Yn ystod 2025/26, ymunodd 14 o gyfranogwyr â rhaglen FareBoost Cymru, a symudodd chwech o'r rhain ymlaen i gyflogaeth. Mae hyn yn dangos y rôl gadarnhaol y mae'r rhaglen yn ei chwarae wrth helpu pobl i feithrin hyder, ennill profiad a chymryd camau ystyrlon tuag at waith.

Wrth i FareShare Cymru barhau i dyfu, rydym ni'n parhau â'n hymrwymiad i greu cyfleoedd sydd nid yn unig yn lleihau gwastraff bwyd ac yn cryfhau cymunedau, ond sydd hefyd yn helpu pobl i ddatblygu eu hyder, eu sgiliau a'u dyhead.

## Astudiaeth Achos

Ymunodd un cyfranogwr, sef Chantelle, â FareBoost Cymru yn chwilio am strwythur, hyder a chyfleoedd newydd. Dros gyfnod y rhaglen, datblygodd sgiliau arweinyddiaeth, enillodd brofiad ymarferol a daeth yn rhan weithredol o gymuned FareShare Cymru.

Yn ystod ei hamser gyda FareBoost Cymru, sicrhaodd Chantelle ei rôl gyflogedig gyntaf mewn lletygarwch yn Stadiwm y Principality a dechreuodd baratoi ar gyfer cyfleoedd hyfforddi yn y dyfodol, gan gynnwys hyfforddiant yr Awdurdod Diwydiant Diogelwch.

Wrth fyfyrio ar ei phrofiad, dywedodd Chantelle:

***"Mae bod yn rhan o FareBoost wedi rhoi ymdeimlad o bwrpas a chymuned i mi. Rydych chi'n helpu pobl sydd angen bwyd, ac mae gwneud gwahaniaeth yn deimlad anhygoel."***

Mae stori Chantelle yn tynnu sylw at effaith ehangach FareBoost Cymru, gan ddangos sut y gall profiad ymarferol, anogaeth a chefnogaeth gymunedol helpu pobl i feithrin hyder a symud tuag at gyfleoedd newydd.

# Aelodau
# Bwyd Cymunedol

Roedd 2025/26 yn flwyddyn o dwf, partneriaeth a chydweithio ar draws ein rhwydwaith Aelodau Bwyd Cymunedol. Llwyddwyd i recriwtio llawer o aelodau newydd ledled Cymru, a gwelwyd cynnydd yn swm y bwyd roedd llawer o'r aelodau presennol yn ei dderbyn. Rydym wedi cyflenwi 10 set o ddosbarthwyr diwastraff i rai o'n haelodau, sydd wedi golygu y gallwn ailddosbarthu mwy o stoc amgylchol ar gyfer pwrpasau arlwyo ledled Cymru. Mae hyn yn golygu bod llai o fwyd yn mynd i wastraff, a llai o ddefnydd pacio hefyd! Mae bron i 40% o'n haelodau bellach yn defnyddio bwyd FareShare Cymru ar gyfer prosiectau coginio a chreu prydau bwyd.

Mae ein haelodau'n cynnwys sefydliadau cymunedol, ysgolion, prosiectau tai â chymorth, grwpiau ffydd, pantris, caffis a mentrau llawr gwlad sy'n gweithio mewn cymunedau ledled Cymru.

Mae ein holl aelodau'n defnyddio bwyd mewn ffyrdd sy'n mynd ymhell y tu hwnt i ddarpariaeth argyfwng. Mae The Shared Plate yn Abertawe, er enghraifft, yn defnyddio bwyd i ddysgu sgiliau coginio i bobl ifanc, cyn dod â phobl ynghyd i rannu prydau bwyd cymunedol. Mae Coleg Beechwood yn Sili yn ymgorffori bwyd o fewn cyfleoedd dysgu yn ei leoliad preswyl ar gyfer oedolion ifanc awtistig, tra bod Pryd ar Glud Baobab Bach yn Mynydd Cynffig ym Mhen-y-bont ar Ogwr yn paratoi prydau bwyd iach i bobl leol nad ydynt yn gallu coginio drostynt eu hunain.

Rydym yn partneru â sefydliadau sy'n rhoi bwyd wrth wraidd cefnogaeth gymunedol ehangach. Er mai bwyd yw'r man cychwyn yn aml, mae'r effaith yn cyrraedd ymhellach o lawer, gydag aelodau'n darparu mannau diogel, cefnogaeth ymarferol, cysylltiad cymdeithasol a gwasanaethau wedi'u teilwra i anghenion eu cymunedau.

Rydym yn gwerthfawrogi'r partneriaethau hyn yn fawr, ac yn gwerthfawrogi'r gwahaniaeth maen nhw'n ei wneud o fewn cymunedau lleol ledled Cymru.

## Astudiaeth Achos

Mae Gwirfoddolwyr Cymunedol Cymru yn Rhisga yn defnyddio bwyd dros ben i gefnogi pobl leol trwy amrywiaeth o brosiectau a gynlluniwyd i fynd i'r afael â thlodi, lleihau unigedd a chryfhau cysylltiadau cymunedol. Trwy fentrau sy'n cynnwys pantri cymunedol The Pantri a sesiynau coginio teuluol, mae bwyd yn gweithredu megis porth at gefnogaeth, dysgu a lles ehangach.

Derbyniwyd Cegin Dros Dro gan Gwirfoddolwyr Cymunedol Cymru, gyda chefnogaeth gan FareShare Cymru. Mae'r gegin hon yn helpu teuluoedd lleol i ddatblygu sgiliau coginio, meithrin hyder a pharatoi prydau iach ar gyllideb dynn.



Esboniodd Tara, Cyd-sylfaenydd Gwirfoddolwyr Cymunedol Cymru:

*"Mae darlun llawer mwy, oherwydd os gall pobl ddod at ei gilydd a chael y sgyrsiau hynny a chymdeithasu, mae'r cyfan yn cefnogi iechyd meddwl. Mae bwyd bob amser yn rhan o hynny."*

Mae gwaith Gwirfoddolwyr Cymunedol Cymru yn dangos sut y gall bwyd wneud llawer mwy na llenwi platiau. Gall ddod â phobl at ei gilydd, creu cyfleoedd i ddysgu sgiliau newydd a helpu i adeiladu cymunedau cryfach, mwy cysylltiedig.

# Aelodau
# Bwyd Cymunedol

Al-Ikhlas Centre | Al-Manar | Banc Bwyd Cwmaman Food Bank | Barc Community Outreach Centre | Barry Baobab Bach | Beaufort Centre | Bethel Trust Port Talbot | Bethlehem Church Community Group | Brackla Primary School | Bryncethin Community Centre | Bwyd i Bawb (Ysgol Bro Banw) BBB | Cadogs Corner Development Group BBB | Cafe Tyfu - Barod | Calon-y-Cwm Baobab Bach Pantry | Canolfan Maerdy | Cap y Gymuned | Castleland Community Association | Cefn Cribwr Community Pantry | Cefn Fforest Primary School BBB | Central Primary School BBB | Centre for African Entrepreneurship | Cetma | Community Volunteers Wales | Cornelly and District Development Trust (Amdani) | Costar Partnership | Cwmfelin Primary School BBB | Cwmffrwdoer Primary School BBB | Cwmllynfell Welfare Hall | Cwtch Angels Abergavenny | Cyfarthfa Park Primary School BBB | Dant y Llew CIC | Dove Workshop | Duffryn Community Link @ Duffryn Community Centre | Fairwater Primary School Family Action FOOD Club | FAN Community Alliance | Felinfoel Family Centre | Food Cycle - Newport | Foodshare Llantwit | Foothold Cymru | Garnsychan Partnership | Gellideg Foundation Group Merthyr Tydfil | Glad2Share Gladstone Primary School RC | Glenwood Church | Glyncoch Community Regeneration Ltd. | Hangar Community Hub CIC | Herbert Thompson Primary | Hope Church Merthyr | Hope St Mellons Pantry (CIO) | Kenfig Hill Meals on Wheels Baobab Bach | KPC Youth & Community (Baobab) | Llannon Community Council | Maesteg Baobab Bach Pantry | Matthews House | Merthyr Tydfil Institute for the Blind (MTIB) | Michael Climer Legacy Fund | Myrtle House | Oakdale Christian Centre | Ogmore Vale Primary School | Old School Community Hub | Panteg Employees Club | Penarth Community Group | Pentre Community Hwb | Pillgwenlly Millennium Trust Ltd | Porthcawl Community Pantry | Rainbow Cafe FOOD Club | RCCG Vineyard Chapel | River Church Wales | Rumney Forum | Safer Wales | Sandfields Community Pantry Baobab Bach | Sharon Full Gospel Church | Sirhowy Valley Hub CIC (Catering) | Sketty Food Bank | Splott Community Volunteers | St Alban's Catholic Primary School BBB | Swansea Community Farm | Sycamore Centre | Tabernacle Baptist Church | Tavs Centre Cardiff | Teen Challenge Hope House | The Bridge Mentoring Plus Scheme | The Fortified City of God | The Good Food Hub | The Pantry @YCB | The Shared Plate | Thornhill 4 U Too | Threshold DAS Limited | TLC CAFE RISCA | Treorchy Primary School BBB | Trinant Primary School | Trowbridge Pantry | UK Islamic Mission (I Care Newport) Food Project | Vernon Place Community Hub | Victory Grocery Store | Vineyard Church Cardiff | Whiterose Information & Resource Centre | Wildmill Community Pantry Baobab Bach | Willowtown Community Primary BBB | Wyesham Christian Fellowship Church FOOD Club | Youth Centre Cefn Hengoed | Ysgol Gymraeg Gwynllyw BBB | Ysgol Gynradd Gorslas BBB | Ysgol Gynradd Llandeilo Primary School BBB | Ysgol Hen Felin

# Codi Arian a Phartneriaethau

Mae cefnogaeth ein harianwyr, partneriaid a chefnogwyr yn parhau i chwarae rhan hanfodol yn llwyddiant FareShare Cymru. Drwy eu buddsoddiad a'u cydweithrediad, gallwn ailddosbarthu bwyd da ledled Cymru, cryfhau cymunedau a lleihau gwastraff bwyd.

Hoffem estyn ein diolch diffuant i Lywodraeth Cymru, Sefydliad Moondance ac Ymddiriedolaeth Simon Gibson am eu cefnogaeth drwy gydol 2025/26. Mae eu cyllid wedi ein galluogi i barhau i ddarparu ein gwasanaethau, cynyddu ein cyrhaeddiad a chefnogi mwy o elusennau a grwpiau cymunedol ledled Cymru.

Yn ystod y flwyddyn, fe wnaethom groesawu canfyddiadau gwerthusiad annibynnol Llywodraeth Cymru o ailddosbarthu bwyd dros ben yng Nghymru. Fe wnaeth y gwerthusiad hwn dynnu sylw at y gwerth cymdeithasol, amgylcheddol ac economaidd sylweddol a grëwyd drwy ailddosbarthu bwyd, gan gydnabod yr effaith gadarnhaol y mae bwyd dros ben yn ei chael ar gymunedau, cynhyrchwyr bwyd ac economi ehangach Cymru.

Parhaodd cydweithio i fod yn ganolog i'n gwaith drwy gydol y flwyddyn. Fe wnaethon ni barhau i gyfrannu at bartneriaethau bwyd rhanbarthol a grwpiau llywio ledled Cymru, gan gynnwys Grŵp Llywio Bwyd Torfaen, Grŵp Llywio Bwyd Y Fro, Grŵp Llywio Partneriaeth Bwyd Rhondda Cynon Taf a Bwyd Abertawe. Drwy'r partneriaethau hyn, fe wnaethon ni helpu i gefnogi trafodaethau ynghylch ansicrwydd bwyd, systemau bwyd cynaliadwy, lleihau gwastraff bwyd a darparu bwyd cymunedol.

Hoffem hefyd ddiolch i'r nifer helaeth o gyflenwyr bwyd, cefnogwyr corfforaethol, rhoddwyr a gwirfoddolwyr sydd wedi cefnogi FareShare Cymru drwy gydol y flwyddyn. Mae eu hymrwymiad yn helpu i sicrhau fod bwyd da yn cyrraedd pobl a chymunedau ledled Cymru, yn hytrach na mynd yn wastraff.

Gyda'i gilydd, mae'r partneriaethau hyn yn ein galluogi i wneud y mwyaf o'n heffaith a pharhau i ddatblygu Cymru sy'n fwy cynaliadwy ac yn fwy cysylltiedig a gwydn.

# Gweithrediadau

Ym mis Medi 2025, fe wnaethon ni symud ein gweithrediadau dyddiol i warws M1. Galluogodd y newid hwn gynnydd yn y trwybwn bwyd, drwy wneud defnydd llawn o'r gallu i storio yn y ddau warws, a'n galluogi i gefnogi mwy o elusennau a grwpiau cymunedol.

Rydym hefyd wedi canolbwyntio ar wella effeithlonrwydd gweithredol, gan gyflwyno tabledi i gefnogi prosesau allweddol. Mae hyn wedi lleihau amser prosesu a'r defnydd o bapur, gan symleiddio gweithgareddau dyddiol. Fe wnaeth y defnydd o beiriant labelu ein galluogi ni i ail-labelu 6000 o becynnau reis dros ben a fyddai wedi mynd yn wastraff fel arall.

Ers mis Medi 2025, mae'r amserlen ddosbarthu wedi bod dan adolygiad parhaus, a chyflwynwyd llwybrau newydd er mwyn ehangu ein cyrhaeddiad. O ganlyniad, rydym wedi gallu cefnogi mwy o elusennau a grwpiau cymunedol ledled Cymru, gan weithio gyda 24 o Aelodau Bwyd Cymunedol ychwanegol o'n storfeydd yng Nghaerdydd.



Dosbarthwyd FareShare Plus bob chwarter o safle S5. Mae'r fenter hon yn darparu cynnig di-fwyd i'n haelodau, gan roi mynediad iddynt at eitemau fel pethau ymolchi, bwyd anifeiliaid anwes a nwyddau hanfodol eraill a nodwyd fel rhai buddiol i'w cymunedau.

# Digwyddiadau a Chynrychiolaeth









# Digwyddiadau
# a Chynrychiolaeth

Drwy gydol 2025/26, parhaodd FareShare Cymru i hyrwyddo rôl ailddosbarthu bwyd dros ben drwy gynnal digwyddiadau, cynadleddau, partneriaethau a thrafodaethau polisi ledled Cymru. Fe fu'r cyfleoedd hyn yn gymorth i godi ymwybyddiaeth o'n gwaith, cryfhau partneriaethau a chyfrannu at sgyrsiau ehangach ynghylch cynaliadwyedd bwyd, diffyg diogeledd bwyd, gwydnwch cymunedol ac effaith amgylcheddol.

Yn ystod y flwyddyn, fe wnaethom fynychu Sioe Frenhinol Cymru, gan ymgysylltu â thyfwyr, cynhyrchwyr ac ymwelwyr o bob cwr o Gymru. Roedd ein rhaglen realiti rhithwir 'O'r Cae i'r Fforc', yn creu profiad ymdrwythol oedd yn helpu i ddangos y daith y mae bwyd dros ben yn ei chymryd, o ffermydd a chyflenwyr i sefydliadau cymunedol, gan amlygu effaith amgylcheddol a chymdeithasol ailddosbarthu bwyd.

Hefyd, fe wnaethom fynychu Blas Cymru/Taste Wales, lle gwnaethom gysylltu â chynhyrchwyr, cyflenwyr a phartneriaid o'r sector bwyd a diod o bob cwr o Gymru. Yn dilyn y digwyddiad, cafodd cynhyrchion dros ben a roddwyd gan arddangoswyr eu hailddosbarthu i gymunedau ledled Cymru, gan helpu i sicrhau nad oedd bwyd da yn mynd yn wastraff.


Cymerodd FareShare Cymru ran mewn amrywiaeth o ddigwyddiadau a thrafodaethau drwy gydol y flwyddyn, gan gynnwys Uwchgynhadledd Bwyd Blaenau Gwent, gweithdy Tegwch i Bawb Abertawe, Cynhadledd yr Economi Llesiant a hefyd mynychu Y Farchnad yn y Senedd. Fe wnaethon ni hefyd barhau i gyfrannu at Glymblaid Gwrth-dlodi Cymru, Grŵp Trawsbleidiol Cwmpas ar Wytnwch Bwyd, a phartneriaethau bwyd rhanbarthol ledled Cymru.

Fel rhan o'n gwaith polisi a dylanwadu, fe wnaethom lansio ein maniffesto cyn etholiadau'r Senedd yn 2026 a chymryd rhan mewn dwy drafodaeth bord gron, sef trafodaeth ar Gydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol a thrafodaeth ar Newid Hinsawdd, Amgylchedd a Materion Gwledig. Fe wnaethom hefyd ddarparu tystiolaeth lafar ac ysgrifenedig i ymchwiliad Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol Y Senedd i fynediad at fwyd iach, maethlon a fforddiadwy, a rhoi tystiolaeth lafar i'r Comisiwn Hawl i Fwyd yn ystod ei sesiwn yng Nghaerdydd.



Ym mis Rhagfyr, roeddem yn falch o groesawu'r Dirprwy Brif Weinidog, Huw Irranca-Davies a Jane Hutt i'n warws yng Nghaerdydd. Rhoddodd yr ymweliad gyfle i arddangos effaith ailddosbarthu bwyd dros ben ledled Cymru ac amlygu gwaith ein staff, gwirfoddolwyr ac Aelodau Bwyd Cymunedol, wrth iddynt gefnogi cymunedau lleol.

Ochr yn ochr â digwyddiadau cenedlaethol ac ymgysylltu â pholisi, fe wnaethom barhau i ymweld ag Aelodau Bwyd Cymunedol a phrosiectau lleol ledled Cymru, gan helpu i rannu straeon yn son am effaith a dathlu'r gwaith sy'n digwydd o fewn cymunedau bob dydd. Fe wnaeth yr ymweliadau hyn gryfhau cydberthnasau, cynyddu dealltwriaeth o anghenion lleol a thynnu sylw at y nifer o ffyrdd y gall bwyd gefnogi lles, cysylltiad a chyfle.



# Dogfen Lywodraethu a Chyfansoddiad

FareShare Cymru yw enw masnachu Food Redistribution Wales Ltd. Mae'n gwmni elusennol cyfyngedig trwy warant (rhif 07198367) sydd wedi'i gofrestru gyda'r Comisiwn Elusennau fel elusen yng Nghymru a Lloegr (rhif 1141781). Sefydlwyd FareShare Cymru yn 2010 ac fe'i llywodraethir gan ei Femorandwm a'i Erthyglau Cymdeithasu a fabwysiadwyd ar 22 Mawrth 2010. Fe ddechreuon ni weithredu ym mis Gorffennaf 2011.

**Tîm Staff**

Prif Swyddog Gweithredol - Sarah Germain
Pennaeth Gweithrediadau - Gerry Molan
Pennaeth Datblygu - Katie Padfield
Rheolwr Cyllid - Sarah Williams
Arweinydd Cyflogadwyedd - Jessica Howells (hyd at fis Chwefror 2026)
Arweinydd Caffael Bwyd - Carmai Chung
Arweinydd Codi Arian - Stephen Wornham (hyd at fis Mehefin 2025)
Arweinydd Marchnata a Chyfathrebu – Bethan Cook (o fis Mai 2025)
Arweinydd Gwirfoddoli - Phil Pinder
Arweinydd Aelodau Bwyd Cymunedol - Laura Haines-Burke
Swyddog Cyllid - Shelley Stokes
Swyddog Gweinyddiaeth a Chymorth – Emina Redzepovic (o fis Hydref 2025 hyd at fis Mawrth 2026)
Rheolwr Gweithrediadau – Allan Cuthbertson (o fis Mehefin 2025)
Rheolwyr Gweithrediadau Cynorthwyol - Dan King

Rheolwyr Gweithrediadau Cynorthwyol:
Shane Harvey (hyd at fis Mehefin 2025), Emma Roberts, Matt Lee, Patrick Waker, Mohanth Palem (o fis Medi 2025) James[ Aylward (o fis Medi 2025)

**Cyfarwyddwyr ac Ymddiriedolwyr:**

Simon Harris - Cadeirydd
John Belcher
Chris Bray
Caitlin Jones (hyd at fis Gorffennaf 2025)
Martin Little
Matt Lloyd (hyd at fis Ebrill 2025)
Stephen Milburn
Jessica Paddock
Cath Smith (hyd at fis Chwefror 2026)
Rhian Thomas

Swyddfa Gofrestredig - Uned S5, Capital Business Park, Caerdydd, CF3 2PU

Banciau:
The Co-operative Bank, P.O. Box 250, Delf House, Southway, Skelmersdale, WN8 6WT
Triodos, Deanery Road, Bryste, BS1 5AS
The Charity Bank Limited, Fosse House,182 High Street, Tonbridge,TN9 1BE

Archwilwyr:
Carston ETL, Tudor House, 16 Cathedral Road, Caerdydd CF11 9LJ.
Rhif Cofrestru Cwmni: 07198367 Rhif Cofrestru Elusen: 1141781

## Amcanion

Mae amcanion elusennol FareShare Cymru ("Yr Amcanion") wedi'u cyfyngu'n benodol i'r canlynol:

(a) lleddfu tlodi a chynnal a hyrwyddo maeth da, iechyd da a gwelliant cymdeithasol ymhlith pobl sy'n dioddef straen cymdeithasol, economaidd neu emosiynol mewn unrhyw ffordd y bydd y Cyfarwyddwyr yn ei ystyried yn briodol, yn ôl eu disgresiwn llwyr, ond yn enwedig drwy: (i) casglu ac ailddosbarthu bwyd sydd dros ben; a (ii) annog aelodau'r cyhoedd i ymgymryd â gwaith gwirfoddol; (b) hyrwyddo addysg gyhoeddus, yn enwedig ar gyfer darparu hyfforddiant yn y sector gwirfoddol, ond nid yn gyfyngedig i hyn; a (c) hyrwyddo er budd y cyhoedd, gadwraeth, diogelu a gwella'r amgylchedd ffisegol a naturiol drwy leihau gwastraff (yn enwedig gwastraff bwyd) a'i effaith amgylcheddol andwyol.

## Budd i'r cyhoedd

Mae'r Ymddiriedolwyr yn cadarnhau eu bod wedi cyfeirio at ganllawiau'r Comisiwn Elusennau ar fudd cyhoeddus wrth adolygu nodau ac amcanion yr elusen ac wrth gynllunio gweithgareddau ar gyfer y dyfodol. Mae ffocws FareShare Cymru ar fynd i'r afael â thlodi bwyd, gan weithio mewn partneriaeth â sefydliadau elusennol a chymunedol lleol, yn creu budd uniongyrchol a chadarnhaol i lawer o bobl ar y cyrion yng Nghymru (gan gynnwys unigolion digartref, di-waith, unigolion mewn tlodi neu wedi'u hynysu). Drwy ei gwaith, mae'r elusen yn ymgysylltu ag unigolion fel gwirfoddolwyr, ac mae hyn yn agored i bawb yn y gymuned, gan gynnwys y rhai sydd fwyaf ar y cyrion. Mae hyn hefyd yn cynnig cyfleoedd i wirfoddolwyr a phobl eraill i ennill cydnabyddiaeth, gan gynnwys achredu, am y sgiliau y maent wedi eu caffael wrth weithio gyda FareShare Cymru. Yn ogystal, drwy ddefnyddio bwyd dros ben, rydym yn lleihau gwastraff ac yn lleihau allyriadau carbon.

## Trefniadaeth

Gyda'i gilydd, mae'r Ymddiriedolwyr yn ffurfio'r Bwrdd sy'n gweithredu megis corff llywodraethu FareShare Cymru. Fe gyfarfu'r Ymddiriedolwyr bedair gwaith yn ystod 2025/26. Mae'r Ymddiriedolwyr yn cymeradwyo cynllun strategol a chyllidebau blynyddol yr elusen, yn ogystal â goruchwylio polisi. Maent hefyd yn darparu goruchwyliaeth ar faterion cyllid ac archwilio, risg a chynaliadwyedd hirdymor. Mae'r tîm staff, dan arweiniad y Prif Swyddog Gweithredol, yn gyfrifol am weithredu'r strategaeth ac am symud ymlaen tuag at nodau ac amcanion allweddol y cytunwyd arnynt.

## Recriwtio a Phenodi Ymddiriedolwyr

Mae'r Ymddiriedolwyr, sydd hefyd yn gyfarwyddwyr ac yn aelodau o'r cwmni elusennol, wedi'u rhestru ar y dudalen flaenorol. Bob blwyddyn, mae un rhan o dair o'r ymddiriedolwyr yn ymddeol o'u swyddi, ond gallant sefyll eto i'w hail-ethol yn unol â'r gweithdrefnau a nodir ym Memorandwm ac Erthyglau'r Cwmni yn y Cyfarfod Blynyddol Cyffredinol nesaf. Caiff ymddiriedolwyr eu recriwtio ar sail yr ystod o sgiliau a phrofiad sydd ganddynt, er mwyn diwallu'r angen i sicrhau llywodraethu cadarn a chynnydd amlwg tuag at genhadaeth ac amcanion yr elusen. Mae ymddiriedolwyr newydd yn derbyn anwythiad sy'n cynnwys gwybodaeth am eu cyfrifoldebau cyfreithiol, polisïau FareShare Cymru, prosesau gwneud penderfyniadau, cynllun strategol a pherfformiad ariannol diweddar. Mae'r ymddiriedolwyr i gyd yn rhoi o'u hamser yn wirfoddol ac nid ydynt yn derbyn unrhyw fuddion o'r elusen.

## Polisi Tâl Staff

Mae ein dull o dalu i staff wedi'i gynllunio i sicrhau ein bod yn gallu denu a chadw pobl o ansawdd uchel i gynrychioli ein buddiannau. Rydym hefyd yn credu mewn gwobrwyo staff yn deg am eu gwaith a meithrin amgylchedd gwaith cadarnhaol, ac rydym yn credu bod ein cyflogau a'n telerau ac amodau'n adlewyrchu hyn. Caiff pobl eu cyflogi yn FareShare Cymru ar sail y sgiliau penodol y maent yn eu cynnig i'w rôl benodol.

Er mwyn i FareShare Cymru weithredu'n llwyddiannus, mae angen ystod eang o sgiliau a disgyblaethau a rhaid talu'n briodol i recriwtio'r bobl sydd â'r sgiliau a ddymunir. Rhaid i ni hefyd gadw'r bobl hyn o fewn marchnad gystadleuol, lle gall eu sgiliau gael eu trosglwyddo'n hawdd i sefydliadau eraill. Mae FareShare Cymru yn credu'n gryf mewn ceisio cadw staff yn y tymor hir, gan eu datblygu a manteisio ar eu gwybodaeth gynyddol. Mae'r gyfradd isaf o dâl a gynigir bob amser yn cyfateb o leiaf i'r Cyflog Byw a osodir gan y Mudiad Cyflog Byw, gan roddi ystyriaeth i chwyddiant a fforddiadwyedd y sefydliad. Mae cynnydd blynyddol yn amodol ar gymeradwyaeth gan Fwrdd yr Ymddiriedolwyr.

## FareShare UK

Mae FareShare Cymru yn rhan o rwydwaith FareShare UK. Mae hyn yn golygu ein bod wedi mabwysiadu llawlyfr diogelwch bwyd FareShare UK a'i bolisïau a'i weithdrefnau Dadansoddi Peryglon a Phwyntiau Rheoli Critigol (HACCP). Rydym yn defnyddio System Rheoli Ar-lein Gladys FareShare UK i gofnodi bwyd sy'n dod i mewn ac yn mynd allan, yn ogystal â'u system ar-lein ar gyfer Rheoli Gwirfoddolwyr ac Aelodau Bwyd Cymunedol. Rydym hefyd yn cytuno i ddilyn eu canllawiau brandio.

## Dull o Godi Arian

Eleni, daeth ein hincwm o ffioedd aelodaeth, gan y llywodraeth, ymddiriedolaethau a sefydliadau, partneriaid corfforaethol ac unigolion. Rydym yn ddiolchgar i bob un o'n cefnogwyr ac am bob rhodd a dderbyniwn. Caiff ein holl waith codi arian ei reoli gan staff a gwirfoddolwyr. Mae'r swm o arian a godir gan unigolion yn fach (llai na 1%). Mae gennym hefyd dudalen ariannu torfol ('crowdfunder') sy'n annog pobl i gyfrannu eu pwyntiau Nectar. Gwnaed ymchwil i benderfynu ar y platfform gorau i'w ddefnyddio, a dewiswyd JustGiving ar sail ei hygrededd. Nid ydym yn cyflogi unrhyw sefydliadau codi arian proffesiynol ac ni chawsom unrhyw gwynion am ein harferion nac am ein gweithgareddau codi arian yn ystod 2025–26.

## Rheoli Risg

Mae gan FareShare Cymru strategaeth rheoli risg sy'n canolbwyntio ar gynnal cofrestr risg. Mae'r broses gychwynnol o adnabod ac asesu risgiau'n cael ei gwneud gan y Rheolwyr a Bwrdd yr Ymddiriedolwyr. Mae'r ymddiriedolwyr yn adolygu'r gofrestr risg yn rheolaidd, gan ystyried sut mae'r risgiau'n rhyngweithio a ble i flaenoriaethu camau lliniaru risg.

Gellir rhannu'r prif gategorïau risg a nodwyd o dan y prif feysydd a ganlyn:

Diogelwch bwyd – Hanfod ein gwaith yw ailddosbarthu bwyd. Mae diogelwch bwyd, ei olrhain a'i drin yn greiddiol i'n cenhadaeth a'n henw da.Lliniaru: Mae ein polisïau a'n gweithdrefnau'n ein galluogi i gynnal y safonau uchaf, gan fod unrhyw fethiannau'n peryglu ein sefyllfa o ymddiriedaeth a'n hawdurdod arbenigol mewn modd uniongyrchol.

Colli staff allweddol – Tîm bach o staff sydd gan FareShare Cymru, felly byddai colli unrhyw unigolyn allweddol yn arwyddocaol.Lliniaru: Rydym yn sicrhau fod pob aelod o'n staff yn gallu cyflawni amrywiaeth o dasgau, gan osod cynllun olyniaeth ar waith.

Sicrhau bwyd sydd dros ben – Rydym yn dibynnu'n bennaf ar FareShare UK am ein cyflenwad o fwyd. Mae'r cyflenwadau bwyd hynny o bosibl yn agored i gystadleuaeth fasnachol yn ogystal â defnydd amgen, megis treuliad anaerobig a bwyd ar gyfer anifeiliaid.
Lliniaru: Rydym wedi recriwtio Cydlynydd Caffael Bwyd ac yn gweithio'n agos gyda FareShare UK i leihau'r rhwystrau i dderbyn bwyd.
Hefyd, mae gennym bolisi targed o anelu at sicrhau chwech i ddeuddeg mis o arian wrth gefn ar gyfer gwariant parhaus cyffredin.

Gweithrediadau – Mae warws FareShare Cymru yn un brysur ac mae'n cynnwys offer a all fod yn beryglus, megis tryciau fforch godi, oergelloedd y gellir cerdded i mewn iddynt a rhewgell. Mae gweithwyr swyddfa yn ogystal â gwirfoddolwyr allanol yn gweithio yn ein safleoedd.Lliniaru: Rydym yn cynnal llawlyfr iechyd a diogelwch cyfredol ac yn sicrhau cyfathrebu cyson trwy raglenni hyfforddi ac ymsefydlu. Rydym wedi cynnal archwiliadau offer sgrin a risg ar gyfer gweithwyr unigol. Yn ogystal â hyn, rydym wedi cynnal archwiliadau o offer sgrin arddangos ar gyfer pob gweithiwr ac wedi cynnal asesiad risg ar gyfer gweithwyr unigol yn y storfa, y rhai sy'n gweithio o'r cartref a'r rhai sy'n teithio ar fusnes sy'n ymwneud â gwaith.
Mae'r asesiadau risg presennol wedi'u hadolygu a'u diweddaru. Cynhaliwyd asesiad risg tân a sicrhawyd dyfynbrisiau ar gyfer camau unioni.

Cynhyrchu incwm – Mae canran fawr o'n hincwm yn dod o grantiau, ac mae llawer o'r rhain yn grantiau tymor byr. Mae'r ymddiriedolwyr yn adolygu ein rhagolygon yn rheolaidd er mwyn sicrhau ein bod yn gallu addasu ein gwariant i ymdopi â newidiadau yn y refeniw a ragwelir.
Lliniaru: Ein nod yw cynyddu ein cyfran o incwm a enillir dros amser, fel y gwelir gyda'r cynnydd mewn ffioedd aelodaeth.

# Future
# Plans

Ym mis Mawrth 2026, cwblhawyd gwaith adnewyddu'r gegin a'r swyddfa yn S5, a dechreuwyd gwneud defnydd o set o offer cegin dros dro a chreu lle bwyta. Yn y dyfodol, byddwn yn recriwtio Arweinydd Coginio a fydd yn cynhyrchu prydau bwyd iach wedi'u coginio i wirfoddolwyr eu bwyta ar y safle, yn datblygu a chyflwyno hyfforddiant sgiliau coginio i wirfoddolwyr ac yn cefnogi Aelodau Bwyd Cymunedol i gael y gorau o'r bwyd maen nhw'n ei dderbyn. Bydd yr Arweinydd Coginio yn gwneud hyn trwy gyflwyno arddangosiadau coginio a chreu adnoddau ar gyfer defnyddio'r bwyd dros ben sydd ar gael, gan ganolbwyntio ar y cynnyrch. Bydd yr hyfforddiant sgiliau coginio hefyd yn cysylltu â'r cynllun i ail-lansio ein rhaglen gyflogadwyedd o'r enw FareBoost, gan gyfuno rôl yr Arweinydd Gwirfoddolwyr â rôl yr Arweinydd Cyflogadwyedd.

Bydd canolbwyntio ar hyfforddiant drwy gydol 2026-27, gan recriwtio Arweinydd Hyfforddi i ddatblygu a chyflwyno hyfforddiant ar gyfer gwirfoddolwyr. Bydd hyn yn sicrhau bod yr holl hyfforddiant a roddir i wirfoddolwyr yn gyson, yn cael ei gofnodi ac yn adroddadwy. Bydd hefyd yn sicrhau cysondeb yn ein prosesau ac ansawdd ein gwasanaeth i'n Aelodau Bwyd Cymunedol. Byddwn yn parhau i gyflwyno hyfforddiant Tryciau Fforch Godi yn fewnol ac yn edrych ar ddod yn ganolfan hyfforddi achrededig.

Nodwyd fod angen am ein gwasanaethau yng Ngorllewin Cymru. Byddwn yn recriwtio Swyddog Prosiect i weithio yn y maes hwn, gan sicrhau y gallwn gefnogi elusennau a grwpiau cymunedol drwy ddarparu bwyd dros ben o ansawdd da. Bydd hyn yn cynnwys ehangu ymhellach i Orllewin Cymru ac ystyried opsiynau ar gyfer cwmpasu yng Ngorllewin Cymru yn y tymor hwy.

Yn gyffredinol, ein nod yw parhau i gefnogi elusennau lleol a grwpiau cymunedol sy'n defnyddio bwyd dros ben i greu effaith gymdeithasol yn eu cymunedau, gan ddarparu datrysiad i'r diwydiant bwyd, sy'n gadarn yn foesegol, yn amgylcheddol ac yn economaidd.

**Cyfrannu tuag at**

**3.4 miliwn o brydau bwyd**

**Ailddosbarthu**

**1371 tunnell**

**o fwyd a achubwyd rhag gwastraff**

**Cefnogi**

**287**

**o elusennau a grwpiau cymunedol**

**Arbed**

**4113 tonnes**

**o CO2**

**Arbed**

**£1.6 miliwn**

**i'r Trydydd Sector**

# Adolygiad Ariannol

Mae'r datganiadau ariannol ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2026 yn dangos gostyngiad cyffredinol yng nghyfanswm yr incwm a'r cronfeydd arian o'i gymharu â'r flwyddyn flaenorol.

Gostyngodd yr incwm cyffredinol o £1.342 miliwn i £938k. Roedd hyn yn bennaf oherwydd prosiectau untro yn ystod y flwyddyn flaenorol, gan gynnwys cyllid Menter Ymchwil Busnesau Bach (SBRI) ar gyfer prosiect Cegin Ailddosbarthu Cymru a chyllid cyfalaf ychwanegol gan Lywodraeth Cymru ar gyfer faniau newydd.

Yn yr un modd, gostyngodd y gwariant o £1.064 miliwn i £943k, gan adlewyrchu'n bennaf y costau uniongyrchol oedd yn gysylltiedig â phrosiect Cegin Ailddosbarthu Cymru yn y flwyddyn flaenorol.

Ar y cyfan, arweiniodd hyn at ddiffyg bychan yn ystod y flwyddyn, ac ariannwyd y diffyg hwn o gronfeydd wrth gefn cyffredinol.

Un newid cadarnhaol nodedig oedd y gwelliant o £418k yn ein sefyllfa arian parod. Digwyddodd hyn yn bennaf oherwydd gostyngiad mewn dyledwyr.

FareShare Cymru

www.fareshare.cymru

029 2036 2111

info@fareshare.cymru

@FareShareCymru

Unit S5, Capital Business Park,
Cardiff CF3 2PU